Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Gyfreithiau Troseddau Casineb

Rhagarweiniad

Daw'r ymateb hwn gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac aelodau'r Grŵp Gweithredu ar Gamdriniaeth (wedi'i restru yn yr atodiad).

Swyddogaethau'r Comisiynydd Pobl Hŷn, sy'n rôl statudol annibynnol, yw:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.
- Hyrwyddo'r darpariaeth o gyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn
- Hyrwyddo ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
- Cadw golwg ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi bodoli ers 2008 ac mae wedi cael cryn brofiad o faterion yn ymwneud â throseddau a chamdriniaeth yn erbyn pobl hŷn, a mynediad at gyfiawnder drwy ei wasanaeth gwaith achos, sy'n helpu unigolion, ac mewn perthynas â pholisi ac ymarfer yn gyffredinol.

Mi wnaeth y Comisiynydd gwrdd â chynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith ym mis Tachwedd 2020 i drafod materion yn ymwneud â phobl hŷn, ac mae'r ymateb hwn yn adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw. Mae'r Comisiynydd a'r Grŵp Gweithredu ar Gamdriniaeth wedi trafod y cynigion, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad arbenigol yr unigolion a'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Grŵp.

Trosolwg

Rydyn ni'n croesawu'r ymgynghoriad hwn a'r cyfle i gynnwys oed mewn cyfraith troseddau casineb. Rydyn ni'n credu bod yn rhaid cynnwys oed ac ymateb i'r cwestiynau penodol ar hyn, gan nodi ein rhesymau. Rydyn ni hefyd yn credu y dylid cynnwys oed mewn troseddau 'ysgogi casineb'.

Mae'r cwestiynau'n dilyn y rhifau yn y ddogfen ymgynghori lawn.

Cwestiwn 15 - A ddylid cydnabod oed fel nodwedd warchodedig at ddibenion deddf troseddau casineb?

Dylid cydnabod oed fel nodwedd warchodedig at ddibenion deddf troseddau casineb. Y rhesymau am hyn yw:

- Mae'n rhoi cydraddoldeb i oed fel nodwedd warchodedig, tra byddai ei hepgor yn awgrymu bod oed yn llai pwysig ac, ar adeg pan fo grwpiau eraill yn cael eu cynnwys yn gwbl briodol, byddai'n gam yn ôl.
- Mae tystiolaeth y gall troseddwyr dargedu pobl hŷn yn benodol ar sail eu hoed, er enghraifft troseddau ariannol.
- Mae gwahaniaethu ar sail oed – 'stereoteipio, rhagfarnu a gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail eu hoed' – yn gyffredin mewn cymdeithas ac mae canlyniadau hynny'n ddifrifol. Mewn arolwg a gynhaliwyd ar ran y Comisiynydd, mae bron i 1 o bob 8 person hŷn yng Nghymru (12% o bobl 60 oed a hŷn) yn teimlo eu bod wedi dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu hoed. Gwelwyd iaith a gweithredoedd sy'n gwahaniaethu ar sail oed yn ystod y pandemig ac rydyn ni wedi clywed am enghreifftiau o bobl yn cael eu cam-drin yn gyhoeddus oherwydd eu hoed.
- Gallai peidio â chynnwys troseddau yn erbyn pobl hŷn awgrymu nad ydynt mor ddifrifol â throseddau eraill.
- Mae cynnwys oed yn rhoi'r pŵer i lysoedd gynyddu dedfrydau a fydd hefyd yn helpu i roi mwy o gydnabyddiaeth i effaith troseddau ar bobl hŷn; gallai hefyd fod yn rhwystr i'r rhai sy'n bwriadu cyflawni troseddau yn erbyn pobl hŷn.
- Mae miloedd lawer o bobl hŷn yn cael eu cam-drin a gall hyn gynnwys cam-drin corfforol; cam-drin domestig; cam-drin rhywiol; cam-drin seicolegol neu emosiynol; cam-drin ariannol neu faterol; cam-drin sefydliadol neu drefniadol; esgeulustod neu weithred o anwaith; a rheolaeth drwy orfodaeth. Dangosodd ymchwil ddiweddar gan yr elusen Hourglass fod o leiaf 2.7 miliwn o bobl dros 65 oed yn y DU wedi cael eu cam-drin, sef bron i un o bob pump. Mae cynnwys oed mewn cyfreithiau troseddau casineb yn angenrheidiol er mwyn cymryd camau llwyddiannus i atal camdriniaeth a chefnogi'r rheini sy'n ei brofi.

Cwestiwn 16 - A ddylid cyfyngu unrhyw amddiffyniad rhag troseddau casineb ar sail oed i 'bobl hŷn' neu a ddylai gynnwys pobl o bob oed?

Fel y trafodwyd â Chomisiwn y Gyfraith ac fel y cyfeirir ato yn y ddogfen ymgynghori, byddai cyfyngu troseddau casineb ar sail oedran i bobl hŷn yn ddatganiad pwerus am y gwahaniaethu a'r gamdriniaeth y gall pobl hŷn eu hwynebu, a byddai'n dangos yn glir bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn gan gyfraith troseddau casineb. Fodd bynnag, credwn y byddai'n iawn cynnwys pobl o bob oed ond, wrth gyfathrebu am y newidiadau i'r gyfraith, dylid cyfeirio'n benodol at bobl hŷn fel grŵp sydd wedi eu cynnwys dan y ddeddfwriaeth.

Cwestiwn 23 – A ddylid diwygio'r prawf cymhelliant presennol fel ei fod yn gofyn ai 'gelyniaeth neu ragfarn' tuag at y nodwedd warchodedig oedd y cymhelliant dros y drosedd?

Rydyn ni'n credu y dylid diwygio'r prawf cymhelliant presennol fel ei fod yn gofyn ai 'gelyniaeth neu ragfarn' oedd y cymhelliant dros y drosedd. Byddai'r prawf hwn yn cwmpasu gwahaniaethu ar sail oedran yn well fel ffactor sy'n cymell.

Troseddau ysgogi casineb

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am ymestyn y troseddau ysgogi casineb i gynnwys nodweddion gwarchodedig eraill ond nid yw'n cynnwys oed. Rydyn ni'n credu bod angen cynnwys oed hefyd, o ystyried bodolaeth oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oed.

Dros y misoedd diwethaf, rydyn ni wedi clywed am enghreifftiau o bobl hŷn yn cael eu cam-drin yn eiriol yn gyhoeddus oherwydd eu hoed. Er enghraifft, galw person hŷn yn 'flociwr gwelyau' (sy'n awgrymu eu bod rywsut yn defnyddio gwely ysbyty a ddylai fod ar gael i rywun arall), ac enghraifft o rywun yn dweud wrth berson hŷn 'rydw i'n gobeithio y bydd Covid yn ddigon amdanat ti'. Os bydd oed yn dal i gael ei eithrio, gallai roi'r argraff ei bod yn dderbyniol i ddefnyddio iaith sy'n gwahaniaethu ar sail oed ac ysgogi gelyniaeth yn erbyn pobl hŷn.

Casgliad

Rydyn ni'n gryf o blaid cynnwys oed mewn cyfraith troseddau casineb ac yn gweld hwn fel cam pwysig ymlaen o ran cydnabod effaith cam-drin a gwahaniaethu ar sail oed yn well a chryfhau amddiffyniadau ar gyfer pobl hŷn. Bydden ni'n falch o ddarparu rhagor o wybodaeth a thrafod ein hymateb yn fanylach â Chomisiwn y Gyfraith.

Atodiad

Grŵp Gweithredu ar Gamdriniaeth Cyd-lofnodwyr (Grŵp Gweithredu i Roi Terfyn ar Gam-drin Pobl Hŷn yng Nghymru):

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Age Cymru
BASW Cymru
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain.
Both Parents Matter
Arolygiaeth Gofal Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
DEWIS Choice
EROSH
Hourglass Cymru
Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol
Gwarchod y Gymdogaeth
Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Coleg Brenhinol y Nyrsys Cymru
Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir
Safonau Masnach (cynrychiolydd Cymru)
Uned Atal Trais Cymru
Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)
Cymorth i Ferched Cymru
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
Ffôn: 03442 640 670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com